



## **Gweinyddydd Systemau Hyfforddi (NU110)**

### **Swydd Wag Llawn Amser, Parhaol**

#### **Gradd 5**

**Amrediad Cyflog  
£20,444 - £20,852**

#### **Dyfarniad cyflog yn yr arfaeth**

Cododd gyfle cyffrous ar gyfer **Gweinyddydd Systemau Hyfforddi** parhaol o fewn Adran Hyfforddi a Datblygu Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y rôl yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd, Heol yr Eglwys. Hen Laneirwg, Caerdydd, CF3 6YA a bydd yn swydd **llawn amser 37 awr yr wythnos am chwe mis (yn ystod cam adeiladu'r prosiect) yn gostwng i swydd rhan amser 18.5 awr yr wythnos wedyn (i'w hadolygu)**. Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Yn adrodd i'r Rheolwr Datblygu Gweithrediadau, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi adeiladwaith a gweinyddiaeth cofnodion hyfforddi a systemau cynllunio effeithiol ac effeithlon i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a hefyd darparu cymorth gweinyddol safonol a phroffesiynol i Adran Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth.

Yn gweithio fel rhan o'r tîm Datblygu Gweithredol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynorthwyo wrth adeiladu a gweinyddu rheolaeth cyrsiau, sicrwydd gweithredol a systemau e-systemau effeithiol. Byddant hefyd yn cefnogi gweinyddiaeth gweithgareddau hyfforddi ehangach o fewn yr Adran Hyfforddi a Datblygu a bydd angen iddynt gael profiad o weithio mewn rôl weinyddol neu swyddogaethol TGCh a bod yn gallu defnyddio cymwysiaidau Microsoft Office.

Mae angen sgiliau trefnu ardderchog ac mae cywirdeb a sylw at fanwl gywirdeb hefyd yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, yn ogystal â'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar draws pob lefel gydag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol. Darperir hyfforddiant mewn systemau meddalwedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gall y rôl hon gynnwys peth teithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Mae pob penodiad yn amodol ar wiriad trwydded yrru, prawf alcohol a chyffuriau ac archwiliad meddygol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

Gellir lawr lwytho pecyn cais, gan gynnwys y Fanyleb Person a'r Swydd-ddisgrifiad o Adran Swyddi Cyfredol gwefan Gwasanaeth Tân & Achub De Cymru [www.southwales-fire.gov.uk](http://www.southwales-fire.gov.uk).

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Iau 6ed Hydref am hanner dydd**. A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.